DILYN ÔL TROED

Arwyr ac Arwresau Cymru
William Burges



Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae ein stori ni wedi'i gosod yn y 1800au, pan oedd pensaernïaeth Gothig (canoloesol) mewn bri mawr unwaith yn rhagor. Wedi'u hysbrydoli gan weledigaethau o ramant a sifalri, byddai teuluoedd cefnog yn adeiladu tai gyda thyrau bychain, bwâu pigfain, murfylchau, ffenestri gwydr lliw a rhwysg a chrandrwydd mawr.

William Burges

'Burges Hyll a'i gynlluniau hardd…'

Mae nenfwd y parlwr mawr yng Nghastell Coch wedi'i addurno gyda chasgliad o sêr, gloÿnnod byw ac adar

Ffotograff o'r Arglwydd Bute yn 1872, a dynnwyd dwy flynedd ar ôl cael ei ddisgrifio fel yr arwr yn nofel Benjamin Disraeli, Lothair

Ffynhonnell: Casgliadau Castell Caerdydd, Cyngor Caerdydd

Dywedir mai William Burges oedd pensaer a dylunydd mwyaf talentog a hoffus ei gyfnod. Ond oherwydd ei ymddangosiad, byddai ei ffrindiau'n cyfeirio ato'n hoffus fel 'Burges Hyll'. Roedd yn fyr iawn, iawn ei olwg hefyd. Er gwaethaf hyn, aeth ymlaen i ddylunio'r llefydd harddaf a mwyaf rhamantus dan haul, gan gynnwys palas hudolus Castell Coch yn ne Cymru.

Roedd Burges yn hanu o deulu cefnog ac felly roedd yn gallu treulio amser yn teithio yn Ewrop. Astudiodd bensaernïaeth a gwelodd syniadau a ddefnyddiodd weddill ei yrfa.

Gweithiodd Burges ar eglwysi cadeiriol, prifysgolion a phlastai. Dau o'i weithiau enwocaf oedd y cestyll Cymreig a adnewyddwyd ganddo ar gyfer John Patrick Crichton-Stuart, 3ydd marcwis Bute.

Cymeriadau croes ond partneriaid perffaith

Cyfarfu Burges yr Arglwydd Bute yn 1865. Roedd y ddau'n gymeriadau cwbl wahanol. Roedd Burges yn uchel ei gloch ac yn gymdeithasol iawn, ac yn adnabyddus am ei sgwrs ffraeth a'i synnwyr digrifwch. Roedd Arglwydd Bute yn ddyn tawel, dwys ac wrth ei fodd yn ei gwmni ei hun. Ond roedd y ddau ar dân eisiau adfer poblogrwydd pensaernïaeth ag iddi arddull Gothig. Daeth Arglwydd Bute, sef y dyn cyfoethocaf ym Mhrydain ar y pryd yn ôl y sôn, yn noddwr Burges.

Castell Caerdydd – comisiwn oes

Y dasg gyntaf a gafodd Burges gan Arglwydd Bute oedd ailgynllunio Castell Caerdydd. Nid oedd Arglwydd Bute yn hoff o'r ffordd yr oedd y castell wedi cael ei adnewyddu dros y blynyddoedd ac roedd eisiau ei drawsnewid yn balas canoloesol. Roedd yn brosiect enfawr, gan gynnwys adeiladu tyrau a chapel, ac addurno'r ystafelloedd i gyd yn oludog tu hwnt.

Tra oedd Burges yn dal i weithio ar y prosiect, gofynnodd Arglwydd Bute iddo edrych ar ailadeiladu Castell Coch gerllaw. Roedd yn llawer llai na Chastell Caerdydd, ond yn adfail llwyr.

Y nenfwd hardd y tu mewn i Gastell Coch

Castell Coch — o adfail gwag i adeilad gogoneddus

Wynebodd Burges yr her. Trawsnewidiodd Castell Coch yn gastell gwych a hudolus gyda thri thŵr. Ym mhob tŵr roedd ystafelloedd hardd wedi'u haddurno'n hynod foethus. Er mai ffantasi ganoloesol oedd y castell, roedd ynddo holl offer modern y dydd hefyd – cegin fawr, toiledau gyda tsiaen i dynnu'r dŵr a gwres canolog.

Llun clawr: Cabinet Yatman © Victoria and Albert Museum, London



(Uchod) Darlun o William Burges ar du mewn drws cabinet (clawr) a ddyluniodd ar gyfer y brodyr Yatman yn 1858
© Victoria and Albert Museum, Londonv

Yr iard yng Nghastell Coch

Tri thŵr Castell Coch

Ffynhonnell: Skyscan Balloon Photography ar gyfer Cadw

Engrafiad o ffotograff o Gwendolen Fitzalan-Howard ar ddiwrnod ei phriodas â thrydydd Marcwis Bute yn 1872

Ffynhonnell: Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Y bras-ddarluniau cefndir ar gyfer Castell Coch

Ffynhonnell: Casgliadau Castell Caerdydd, Cyngor Caerdydd

Y parlwr mawr yng Nghastell Coch

Yr ymweliad olaf yn arwain at drasiedi

Pan oedd ar ymweliad â Chaerdydd yn 1881, aeth Burges ar daith hir mewn ceffyl a char. Cafodd oerfel ac fe'i gadawodd yn barlys. Dair wythnos yn ddiweddarach, bu farw yn ddim ond 53 mlwydd oed.

Hen lanc fu Burges ar hyd ei oes, heb adael unrhyw deulu ar ei ôl. Ond roedd ei ffrindiau a'i gydweithwyr wedi torri eu calonnau. Ysgrifennodd John Starling Chapple, gwas ffyddlon Burges am fwy nag 20 mlynedd, 'Dydw i heb sylweddoli pa mor unig ydw i eto. Fo oedd fy myd cyfan i bron'.

Ysgrifennodd Arglwyddes Bute, gwraig ei noddwr, 'Burges annwyl, Burges hyll, a'i gynlluniau mor hardd…'

(Roedd ei ffrindiau'n defnyddio'r llysenw 'Burges Hyll' i wahaniaethu rhyngddo ef â'r paentiwr John Bagnold Burgess. Y llysenw arno ef ganddynt oedd 'Burgess Del'.)

Ei gynlluniau'n goroesi

Yn ffodus iawn, roedd Burges wedi bod yn hynod fanwl yn ei waith cynllunio. Roedd wedi paratoi darluniau manwl iawn ac wedi ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer popeth. Oherwydd hyn roedd posib i'r crefftwyr ddal ati i adfer Castell Coch.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, cwblhawyd y gwaith ar y castell Gothig. Mae wedi goroesi hyd heddiw fel cofgolofn i athrylith ecsentrig William Burges, unigolyn arbennig iawn a ddisgrifiwyd gan Arglwydd Bute fel gŵr a oedd yn 'ysbrydoli'r enaid'.

Dilyn ôl troed

Rydych chi wedi darllen stori William Burges ac Arglwydd Bute, nawr ewch am dro i'r cestyll ffantasi a gynlluniwyd ganddynt…

Castell Coch

Bydd castell rhyfeddol Castell Coch yn eich cyfareddu yn sicr. Gyda'i dyrau conig yn codi allan o'r coed, mae fel camu i mewn i fyd y tylwyth teg. Y tu mewn, fe welwch chi addurniadau crand wedi'u dylunio gan William Burges.

Un o'r cadeiriau yn ystafell wely'r Arglwyddes Bute (uchod), a Psyche Adeiniog, a oedd mor hoff gan Eros, ar fantell simnai yn ystafell wely'r Arglwyddes Bute (ar y dde)

- Ewch i mewn i'r Neuadd Wledd, yr unig ystafell i gael ei chwblhau cyn i Burges farw. Tybed beth oedd yn mynd drwy'i feddwl wrth iddo edrych ar ei waith?
- Cerddwch draw i'r Parlwr Mawr godidog gyda'i nenfwd gwyrddlas ac aur sydd wedi'i addurno gyda chasgliad o sêr, glöynnod byw ac adar. Chwiliwch am y murluniau sy'n adrodd straeon Chwedlau Aesop.
- Chwiliwch am ystafell wely ysblennydd Arglwyddes Bute gyda'i nenfwd cromen coch ac aur a lluniau adar, anifeiliaid, angylion, blodau a ffrwythau wedi'u paentio arno. Welwch chi'r mwncïod yn chwarae uwch ben ei gwely hi? Doedd Arglwydd Bute ddim yn eu cymeradwyo o gwbl!

- Dyma'ch cyfle chi i fod yn actor – mae llawer o ffilmiau wedi cael eu ffilmio yma, yn ogystal â phenodau o *Doctor Who* a *Merlin.*

Castell Caerdydd

Castell Caerdydd

Ewch am dro i'r castell ble bu Burges ac Arglwydd Bute yn gweithio gyda'i gilydd am y tro cyntaf. Roedd Arglwydd Bute yn eithriadol gyfoethog a dim ond un o'i blastai niferus oedd Castell Caerdydd.

- Camwch i fyd Arabian Nights yn Ystafell yr Arabiaid, gyda'i nenfwd aur cyfoethog fel diliau mêl. Hon oedd yr ystafell y bu Burges yn gweithio arni yn ystod ei ymweliad olaf cyn iddo farw.
- Ceisiwch ddatrys dirgelwch straeon y marchogion a'r mynachod canoloesol sy'n cael eu hadrodd yn y murluniau yn y Neuadd Wledd.
- Chwiliwch am forforynion ac angenfilod yn ystafell ymolchi Arglwyddes Bute. Morforynion oedd un o hoff greaduriaid chwedlonol Burges.

Castell Caerffili

Castell Caerffili

Dros fynydd Caerffili o Gastell Coch saif Castell Caerffili, y castell mwyaf yng Nghymru. Cafodd ei adfer gan 4ydd marcwis Bute, mab Arglwydd Bute, a fu'n gyfrifol am adfer Castell Caerdydd a Chastell Coch. Defnyddiwyd y castell yn ddiweddar ar gyfer ffilmio penodau o'r gyfres deledu *Merlin.*

Ewch i www.cadw.cymru.gov.uk i ddarganfod mwy am y safleoedd

© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron), 2013